

Cyngor Blaenau Gwent
Adroddiad Blynyddol
Safonau'r Gymraeg
2021-22

Cynnwys

Adran	Teitl	Tudalen
1	Cyflwyniad	3
2	Cefndir a'r sefyllfa bresennol	4
3	Materion sy'n codi yn ystod y cyfnod adrodd	6
4	Casgliadau ac argymhellion/camau gweithredu	24

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

1. Cyflwyniad

Yr adroddiad hwn yw'r seithfed Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg a luniwyd o dan ofynion Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, ac mae'n cwmpasu'r cyfnod 1 Ebrill 2021 i 31 Mawrth 2022.

Mae'r adroddiad yn ystyried 4 maes allweddol (cwynion; sgiliau iaith Gymraeg; hyfforddiant iaith Gymraeg; a recriwtio) ac yn rhoi trosolwg o sut rydym wedi cwrdd â'n gofynion perthnasol fel y nodir yn y tabl isod:

Meysydd	Safon Perthnasol a/neu is-adran
<u>Cwynion</u> Mae'r adroddiad yn manylu ar nifer y cwynion a gawsom yn ystod y flwyddyn mewn perthynas â'n cydymffurfiad â Safonau'r Gymraeg.	147, 148, 156, 158(2), 162, 164(2), 168(a), 170 (2), (d)
<u>Sgiliau iaith Gymraeg</u> Mae'r adroddiad yn amlinellu nifer y gweithwyr sydd â sgiliau iaith Gymraeg rhwng 1 ^{af} Ebrill 2021 a 31 ^{ain} Mawrth 2022.	170(2)(a), 151
<u>Hyfforddiant iaith Gymraeg</u> Mae'r adroddiad yn darparu gwybodaeth am nifer staff Cyngor Blaenau Gwent a fynychodd gysiau Hyfforddiant iaith Gymraeg a ddarparwyd gennym (canran cyfanswm y staff sy'n mynychu fersiwn Gymraeg o'r cwrs.	152, 170 (2) (b)
<u>Recriwtio</u> Mae'r adroddiad yn amlinellu nifer y swyddi newydd a gwag a hysbysebwyd gennym yn ystod y flwyddyn lle: <ul style="list-style-type: none">• Roedd sgiliau Cymraeg yn hanfodol.• Roedd angen dysgu sgiliau iaith Gymraeg wrth gael eu penodi i'r swydd.• Roedd sgiliau iaith Gymraeg yn ddymunol; neu• Nid oedd sgiliau iaith Gymraeg yn angenrheidiol.	170)(ch), 154

2. Cefndir a'r sefyllfa bresennol

Cynhyrchwyd yr adroddiad hwn yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a Safonau'r Gymraeg.

Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn nodi'r fframwaith cyfreithiol ynghylch defnyddio'r Gymraeg wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus. At hynny, o dan Safonau 158, 164 a 170, rhaid i'r Awdurdod Lleol gynhyrchu Adroddiad Blynyddol Iaith Gymraeg sy'n amlinellu sut mae'r Cyngor wedi cydymffurfio â'r safonau cyflenwi gwasanaethau, safonau llunio polisi a'r safonau gweithredol.

Mae mwy o wybodaeth am ofynion Blaenau Gwent ar gael ar [dudalen we](#) ein Cyngor ac mae hefyd wedi'i amlinellu yn ein [Hysbysiad Cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg](#) a ddarperir gan Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg gan gynnwys gwybodaeth am sut rydym yn hyrwyddo ac yn hwyluso'r defnydd o wasanaethau Cymraeg trwy ein [Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg 2017-22](#) - gyda'n strategaeth newydd yn cael ei datblygu ar hyn o bryd.

Atebolrwydd

Mae'r canlynol yn gyfrifol am y Gymraeg o fewn y sefydliad:

Arweinyddiaeth Wleidyddol

Mae Arweinydd y Cyngor/Aelod Gweithredol dros Wasanaethau Corfforaethol yn parhau i fod â chyfrifoldeb portffolio am y Gymraeg. Lle bo hynny'n briodol, ystyrir y Gymraeg yn wleidyddol trwy'r Archwiliad Trosolwg Corfforaethol, y Weithrediaeth a phan fo'n briodol y Cyngor.

Arweinyddiaeth Strategol

Mae'r Tîm Arwain Corfforaethol (CLT) yn cynnwys y Rheolwr Gyfarwyddwr, y Cyfarwyddwyr a'r holl Benaethiaid Gwasanaeth, ac mae'n cynnwys pob un o'r uwch swyddogion a hwn yw'r corff gwneud penderfyniadau ar gyfer elfen gorfforaethol y Cyngor.

Mae'r Tîm Trawsnewid Addysg yn adolygu ac yn monitro [Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg](#) (WESP) yn fisol; yn darparu adroddiadau tymhorol i'r Fforwm Cymraeg mewn Addysg (WEF) ac yn darparu adroddiadau blynyddol i Lywodraeth Cymru. Yn ogystal, cymerir adroddiadau datblygu a chynnydd WEF trwy brosesau gwleidyddol y Cyngor yn flynyddol. Mae Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg hefyd yn ganolbwynt allweddol i Fwrdd Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif a'r Fforwm Derbyn.

Gweithredu'r Safonau

Mae'r tîm Polisi yn cefnogi, cynghori ac arwain yr arweinwyr gwleidyddol a phroffesiynol ar bob mater sy'n ymwneud â'r Gymraeg. Mae Tîm Polisi'r Cyngor yn parhau i gynnig barn a phrofiadau ar unrhyw ymgynghoriadau allweddol a nhw yw'r prif bwynt cyswllt ar gyfer trafod yr adroddiad hwn.

Mae'r holl staff ar draws ein cyfarwyddiaethau a'n hadrannau yn gyfrifol am weithredu'r safonau yn effeithlon ac am gefnogi ac annog hyrwyddo'r Gymraeg.

Bob blwyddyn, cyflwynir Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg i'n Tîm Arwain Corfforaethol ac fe'i cyflwynir i'n Pwyllgor Archwilio Trosolwg Corfforaethol er gwybodaeth, yn ddiweddarach eleni.

Er y gwneir pob ymdrech i sicrhau ein bod fel sefydliad yn cwrdd â'r gofynion iaith Gymraeg, rydym yn cydnabod bod lle i wella bob amser. Mae'r weithdrefn Canmoliaeth a Chwynion Corfforaethol ar gael i unrhyw un wneud cwyn sy'n ymwneud â'r Gymraeg a Safonau'r Gymraeg ac fe'i defnyddir i'n helpu i nodi a gwneud unrhyw newidiadau gofynnol. Rydym yn croesawu cwynion mewn unrhyw fformat (e.e. e-bost, llythyr, yn bersonol, ffôn, cyfryngau cymdeithasol ac ati).

I gael rhagor o wybodaeth am ein gweithdrefnau [Canmoliaeth a Chwynion Corfforaethol](#) ewch i'n gwefan.

Dewis Iaith Gymraeg Staff

Fel y nodwyd yn yr adroddiad blynyddol blaenorol, anfonwyd llythyr Dewis Iaith at bob aelod o staff wrth gyflwyno safonau'r Gymraeg. Cydlynwyd y wybodaeth hon gan reolwyr llinell fel eu bod yn deall dewis iaith eu staff a'r dewisiadau a oedd wedi'u mewngofnodi'n ganolog ar system Datblygu Sefydliadol (AD) y Cyngor sef iTrent.

Ers hynny mae'r Cyngor wedi cyflwyno mynediad hunanwasanaeth gweithwyr a elwir yn 'FyNgwybodaeth' i'w wybodaeth bersonol a gedwir ar y system iTrent. Mae'r swyddogaeth hon yn golygu bod staff yn cael pob cyfle i ddiweddarau'r wybodaeth hon, sy'n cynnwys unrhyw wybodaeth am nodweddion gwarchodedig a dewis iaith.

3. Materion sy'n codi yn ystod y cyfnod adrodd

Hyfforddiant staff

Cyflwynwyd 0 cwrs (ar gael ar-lein) trwy gyfrwng y Gymraeg, er bod yr opsiwn hwn ar gael i staff os gofynnir am hynny. Efallai nad yw hyn yn syndod o ystyried mai dim ond 10 o'r 2,946 aelod o staff a nododd eu dewis iaith fel Cymraeg, a 5 o bobl sydd am gael gohebiaeth yn Gymraeg. Mae hyn yn ostyngiad bach ers y cyfnod adrodd diwethaf 2020-21 (14).

Trefniant ar gyfer adborth/cwynion defnyddwyr

Yn ystod y cyfnod adrodd hwn, derbyniwyd cyfanswm o **0 cwyn** trwy Ganmoliaeth a Chwynion Corfforaethol ynghylch safonau darparu gwasanaethau; safonau llunio polisi; neu safonau gweithredol. Fodd bynnag, derbyniwyd 1 ymholiad Cymraeg gan aelod o'r cyhoedd trwy e-bost yn ymwneud â chwrdd â safonau'r Gymraeg a weithredwyd yn briodol.

I gael rhagor o wybodaeth am ein gweithdrefnau [Canmoliaeth a Chwynion Corfforaethol](#) ewch i'n gwefan.

Digwyddiadau nodedig yn ystod y flwyddyn

Ym mis Rhagfyr 2021, cynhaliwyd ein hymweliad monitro'r Gymraeg blynyddol â Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg. Ystyriodd y cyfarfod sawl maes allweddol lle gallem gryfhau ein trefniadau presennol ar gyfer bodloni Safonau'r Gymraeg, megis:

- Adolygu ein gwefan Gorfforaethol, gan gynnwys dogfennau a ffurflenni
- Sicrhau bod ein holl gyrsiau ar gael yn Gymraeg, yn ogystal â'r rhai a gomisiynir gan Drydydd Parti, megis Ymddiriedolaeth Hamdden Aneurin
- Mae unrhyw weithgaredd ymgynghori yn ceisio barn ar yr effeithiau posibl y bydd unrhyw benderfyniad yn ei gael ar y Gymraeg a chyfleoedd i'w defnyddio
- Cynhyrchu polisi newydd ar Ddyfarnu Grantiau
- Sicrhau wrth gomisiynu neu wneud ymchwil yr ystyrir yr effeithiau posibl ar y Gymraeg a chyfleoedd i'w defnyddio
- Adolygiad o'n prosesau recriwtio
- Adolygiad o'n trefn Gwyno Gorfforaethol

Arweiniodd hyn at adolygiad llawn o'n gwefan gorfforaethol a datblygwyd cynllun gwaith i fynd i'r afael ag unrhyw feysydd lle gellid gwella cydymffurfiaeth fel rhan o'n prosiect ailgynllunio gwefan Corfforaethol.

Gwnaethpwyd gwiriadau i sicrhau bod unrhyw gyrsiau a ddarperir gennym ni neu'r rhai a gomisiynir gan Drydydd Parti'n yn cael eu cynnig a'u hyrwyddo fel rhai sydd ar gael yn Gymraeg.

Lansiodd y Cyngor Asesiad Effaith Integredig newydd (templed sgrinio ac asesiad llawn) ym mis Awst 2021 sy'n gofyn i unrhyw bolisi neu benderfyniad polisi newydd ystyried ac ymdrin â'r effaith y bydd y penderfyniad hwnnw'n ei gael ar y Gymraeg ac ar y cyfleoedd i'w defnyddio. Felly, cryfhau ein trefniadau ar gyfer comisiynu neu gynnal ymchwil.

Dechreuodd Datblygu Sefydliadol gymryd camau i adolygu ein prosesau recriwtio i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg yn ogystal ag ystyried ffyrdd rhagweithiol y gall y Cyngor annog, galluogi a chefnogi'r defnydd cynyddol o sgiliau Cymraeg drwy ymgyrchoedd gweithlu'r dyfodol, yn ogystal ag annog, galluogi a chefnogi defnydd cynyddol o sgiliau Cymraeg ar draws ein gweithlu presennol (e.e., hyrwyddo hyfforddiant iaith Gymraeg statudol a chyrtsiau atodol i siaradwyr Cymraeg ac ati).

Roedd meysydd gwaith nodedig eraill yn cynnwys:

Ymrestrodd y Tîm Polisi a Phartneriaethau, o dan eu hymrwymiad i gefnogi Cyfranogiad Plant a Phobl Ifanc, ar raglen brentisiaeth Cynllun Kickstart i ddarparu cyfleoedd i bobl ifanc ennill sgiliau a phrofiad uniongyrchol yn y sector cyhoeddus. Roedd y lleoliadau yn cynnwys Swyddog Iaith Gymraeg dan Hyfforddiant, i gydnabod gwerth dwyieithrwydd a defnyddio sgiliau Cymraeg yn y gweithle. Defnyddiwyd y cyfle i gefnogi'r Cyngor i gwrdd â'i ofynion iaith Gymraeg, ond hefyd i chwilio am ffyrdd creadigol o annog defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle. Roedd y lleoliad yn hynod lwyddiannus ac arweiniodd at y person ifanc yn sicrhau cyflogaeth cyfnod penodol o fewn y Tîm Cofrestru Etholiadol.

Mae'r holl 'Ganllawiau Iaith Gymraeg' ar fewnwyd Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent wedi'u hadolygu gan sicrhau bod y cynnwys yn gyfredol ac yn darparu digon o wybodaeth ar sut i fodloni ein gofynion iaith Gymraeg yn y gweithle. Mae'r canllawiau yn symleiddio ein gweithdrefnau iaith Gymraeg gan ei gwneud yn haws i staff weithredu'n effeithiol. Roedd y prif newidiadau a wnaed yn ymwneud â'n gweithdrefnau cyfieithu ar y pryd a sut y cawsant eu haddasu i fodloni gofynion gweithio ar-lein yn unol â Model Gweithredu newydd y Cyngor, yn dilyn pandemig COVID-19. Er enghraifft, o dan safonau 4.3 a 4.4 fe wnaethom gynnwys mwy o fanylion ar sut i ddefnyddio ac archebu cyfieithydd ar y pryd gan ddefnyddio llwyfannau ar-lein megis Microsoft Teams.

Mae'r fformat a'r cynnwys ar gyfer y 'Weithdrefn Ateb y Ffôn' wedi'u golygu er mwyn annog dull mwy rhagweithiol o ddefnyddio'r Gymraeg. Mae'r canllawiau'n cynnwys ffeiliau sain o eiriau ac ymadroddion allweddol er mwyn sicrhau bod staff sydd ag ychydig o sgiliau Cymraeg i sgiliau Cymraeg cymedrol yn gallu delio ag ymholiadau cwsmeriaid yn Gymraeg yn hyderus. O'r herwydd mae'r 'Gweithdrefn Ateb y Ffôn' yn cynnwys dau recordiad o'r holl ymadroddion allweddol: fersiwn wedi'i hadrodd yn araf i bwysleisio synau ac ynganiad allweddol; y frawddeg a siaredir ar gyflymdra arferol. Mae'r sleidiau hyn wedi'u cynnwys fel rhan o'n sesiynau hyfforddiant ar gyfer aelodau staff sydd â rolau sy'n wynebu'r cyhoedd.

Yn yr un modd, rydym hefyd wedi ymgorffori ffeiliau sain yn ein dogfennau 'Cyfarchion Dwyieithog' ac 'Ymadroddion Defnyddiol', ochr yn ochr â sillafiadau ffonetig, sydd ar gael i staff ar y fewnwyd. Mae staff wedi rhoi adborth bod hyn yn fuddiol i gefnogi dysgu a chynyddu lefelau hyder wrth ddefnyddio'r Gymraeg yn fwy effeithiol ac fe'u defnyddir i atgyfnerthu ac adnewyddu dysgu, ochr yn ochr â'r defnydd o'r ffeiliau sain yn ogystal ag adnoddau hyfforddiant Cymraeg eraill sy'n cael eu hyrwyddo.

Rydym yn anfon gohebiaeth a nodiadau atgoffa rheolaidd at bob aelod o staff ynghylch ein gofynion o ran y Gymraeg ac yn hyrwyddo ac yn annog pawb i ddefnyddio'r adnoddau sydd ar gael iddynt fel rhan o ymgyrch dreigl i hybu ac annog defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle. Er enghraifft, mae safonau gwahanol yn cael sylw yn ein cylchlythyr mewnol i staff, Dydd Mercher Lles, yn ogystal â hyrwyddo ein sesiynau Hoffi Coffi anffurfiol ar gyfer staff sydd eisiau defnyddio a gwella eu sgiliau Cymraeg presennol yn ogystal â darparu ffyrdd hwyliog o gynyddu cyfleoedd rhyngweithio cymdeithasol. Mae'r sesiynau'n agored i bob gallu ieithyddol gyda'r nod o hybu hyder pawb i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle.

I gyflawni ein hymrwymiad i 'hyrwyddo ymhellach y defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle a chynyddu cyfleoedd hyfforddiant i staff; yn enwedig staff sy'n allweddol wrth gefnogi'r gwaith o gynnal ein safonau cyflawni gweithredol' fe wnaethom ddatblygu sesiynau iaith Gymraeg hyfforddiant mewnol newydd.

Mae'r sesiynau hyfforddi hyn wedi'u teilwra'n benodol i gefnogi staff gwasanaethau cwsmeriaid o feysydd gwasanaeth allweddol fel ein Canolfan Gyswilt a Hybiau Cymunedol Connect2Blaenau Gwent, Gwasanaethau Budd-daliadau Tai a thîm IAA Gwasanaethau Cymdeithasol i sicrhau bod gwasanaeth Cymraeg yn cael ei ddarparu'n effeithiol sy'n cefnogi ymholiadau a wneir yn Gymraeg. Mae'r hyfforddiant yn dechrau gyda sefydlu seineg yr iaith wrth i ni weithio drwy'r wyddor Gymraeg gan ganolbwyntio ar y synau sydd ddim yn bresennol yn yr iaith Saesneg fel y llythrennau 'll' ac 'ch' ac yn gorffen gyda staff yn teimlo'n gymwys i ddelio gydag ymholiadau ffôn a wnaed yn Gymraeg trwy ddysgu grŵp a chyfoedion. Yn ystod y sesiynau, hyrwyddir adnoddau dysgu Cymraeg megis Dysgu Ar-lein, a chaiff staff eu hannog a'u cefnogi i barhau i ddysgu Cymraeg i'w defnyddio yn y gweithle neu'r tu allan.

Bodloni ein safonau darparu gwasanaethau

Canllawiau Iaith Gymraeg i Staff

Cynhyrchwyd ystod o ganllawiau byr, ymarferol a hawdd eu dilyn ac maent i'w gweld ar dudalen Canllawiau Iaith Gymraeg dynodedig ar fewnwyd y Cyngor.

Mae'r canllawiau hyn yn cynorthwyo staff i weithredu ein safonau cyflenwi gwasanaethau, safonau gweithredol a safonau llunio polisi yn effeithiol. Er enghraifft, mae'r canllawiau'n cynnwys gwybodaeth a chyngor ar sut y dylai staff ateb y ffôn yn ddwyieithog, gan

ddefnyddio templedi dwyieithog y tu allan i'r swyddfa, cyfarchion sylfaenol, ymwadiadau gohebiaeth ac arweiniad ar sut i gael cyfieithiad. Adolygir a diweddarir y dogfennau gwaith hyn o bryd i'w gilydd.

Mae ein [Hysbysiad Cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg](#), ynghyd â chanllaw crynodeb i staff ar gyfer eu cynnal, ar gael ar ein mewnwyd staff. Mae'r dudalen fewnrwyd hon yn parhau i gael ei hyrwyddo trwy Gyfathrebu Corfforaethol a'n Tîm Arwain Corfforaethol Ehangach ac fe'i hadolygir a'i diweddarar hefyd o bryd i'w gilydd.

Ar hyn o bryd mae'r Cyngor yn cynnal prosiect adolygu Gwasanaethau Cwsmeriaid sy'n ceisio archwilio ein defnydd o ddulliau digidol ac annigidol ar gyfer darparu gwasanaethau, a nodi ble a sut y gallwn wneud gwelliannau. Mae hyn yn cynnwys adolygu profiadau cwsmeriaid a theithiau cwsmeriaid, ac ystyrir y Gymraeg fel rhan o'r gwaith hwn. Er enghraifft, mae cynlluniau ar y gweill i adolygu a datblygu neges groeso awtomataidd canolfan gyswllt y Cyngor Cysylltu â Blaenau Gwent (C2BG); darparu hyfforddiant iaith Gymraeg i staff C2BG; datblygu rhestr cysylltiadau Cymraeg Corfforaethol newydd sy'n cynnwys gwaith i gwmpasu cyfleoedd i gefnogi dilysu mewnol (er enghraifft, Siopwyr Dirgel, gwiriadau sampl ac ati).

Yn 2019, fel rhan o'n gwaith hunanasesu, gwnaethom gynnal archwiliad mewnol a archwiliodd effeithiolrwydd ein rheolaethau mewnol ar gyfer prosesau'r Gymraeg a chwrdd â'n Safonau Cymraeg. Penderfynwyd bod canlyniad cyffredinol yr archwiliad o 'sicrwydd rhesymol', ac arweiniodd at ddatblygu cynllun gweithredu i fynd i'r afael ag unrhyw argymhellion allweddol erbyn mis Rhagfyr 2020. Er gwaethaf y ffaith bod angen oedi'r gwaith hwn oherwydd y pandemig, aildechreuodd y gwaith ym mis Ionawr 2021 a chymerwyd y camau a ganlyn:

- Adolygu a datblygu rhestr a phroses darparwyr cyfieithu i'r Gymraeg.
- Cynhaliwyd cyfarfodydd gyda Chyfathrebu i sicrhau cydymffurfiaid â'r iaith Gymraeg mewn perthynas â phostiadau cyfryngau cymdeithasol.
- Cwmpasu cyfleoedd lle gellir adolygu a gwella gwasanaethau Cymraeg trwy brosesau gwirio mewnol.

Cwrdd â'n safonau llunio polisi

Mae'n ddyletswydd ar y Cyngor i gydymffurfio â nifer o safonau llunio polisi. Er enghraifft, mae'r Cyngor wedi gweithredu Asesiad Effaith Integredig (IIA) newydd a ddefnyddir i gefnogi datblygu polisi, gwasanaeth, gweithdrefnau a swyddogaethau, a chynigion arbed effeithlonrwydd ariannol arfaethedig ac ati. Mae'r broses AEI yn sicrhau bod ystyriaeth briodol i'r Gymraeg o ran nodi effeithiau 'cadarnhaol' yn ogystal ag 'andwyol' a chyfleoedd ar gyfer lliniaru yn unol â'n gofynion iaith Gymraeg.

Cymeradwyodd a hyrwyddodd y Cyngor Bolisi Dyfarnu Grantiau newydd sy'n darparu fframwaith, ochr yn ochr â chanllawiau, ar gyfer sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol ac anogir ei defnydd. Datblygwyd hwn fel rhan o ddarn o waith rhanbarthol gydag ardaloedd awdurdodau lleol cyfagos eraill i sicrhau cysondeb o ran arfer o ran cymhwyso'r safonau.

Datblygwyd Ymgyrch Cyfathrebu Safonau'r Gymraeg Corfforaethol newydd a fydd yn atgoffa staff o'n gofynion a'r ffyrdd ymarferol y gallant eu cefnogi a'u cyfeirio at ragor o gymorth ac arweiniad sydd ar gael ar ein mewnwrwyd, megis Safonau'r Gymraeg 91-93 ar gynnal Ymgynghoriadau.

Cwrdd â'n safonau hyrwyddo

Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg

Mae Safon 145 yn ei gwneud yn ofynnol i Gyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent gynhyrchu strategaeth sy'n manylu ar sut y bydd yn hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg dros y pum mlynedd nesaf.

Mae nodau Strategaeth Iaith Gymraeg Blaenau Gwent yn gysylltiedig â Gweledigaeth Llywodraeth Cymru i greu miliwn o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru erbyn 2050. Er mwyn cyrraedd targed o gynnydd o 44% yn nifer y siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, byddai angen i ni ennill 2,324 o siaradwyr Cymraeg ychwanegol yn erbyn llinell Sylfaen Cyfrifiad 2011 Blaenau Gwent o 5,284. Felly, mae hyn yn cynrychioli cynnydd blynyddol cyfartalog o 70 siaradwyr Cymraeg ychwanegol, h.y. 3% o'r ffigwr targed o 2,324 ychwanegol ym Blaenau Gwent am y 33 mlynedd nesaf.

Mae gan y Cyngor dri amcan Hyrwyddo'r Gymraeg:

- i. Hyrwyddo ac annog defnydd o'r Gymraeg o fewn teuluoedd a'r gymuned;
- ii. Cynyddu'r ddarpariaeth addysg Gymraeg a gweithgareddau anffurfiol ar gyfer plant a phobl ifanc a chynyddu eu hymwybyddiaeth o werth yr iaith;
- iii. Cynyddu cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle.

http://democracy.blaenau-gwent.gov.uk/aksblaenau_gwent/images/att6176.pdf

Isod mae rhai o'r darnau allweddol o waith sy'n cael eu symud ymlaen i hyrwyddo'r Gymraeg o fewn y Cyngor a chymunedau Blaenau Gwent:

Mae **Amcan un Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg yn datgan y bydd y Cyngor yn "hyrwyddo ac annog y defnydd o'r Gymraeg o fewn teuluoedd a'r gymuned"**.

Mae **Amcan dau Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg yn nodi y bydd y Cyngor yn: "Cynyddu'r ddarpariaeth addysg Gymraeg a gweithgareddau anffurfiol i blant a phobl ifanc a chynyddu eu hymwybyddiaeth o werth yr iaith"**.

Mae Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg Blaenau Gwent 2017-20 wedi'i alinio'n uniongyrchol â fframweithiau strategol iaith Gymraeg Llywodraeth Cymru a'r Cyngor. Gellir crynhoi'r blaenoriaethau strategol a amlygwyd yn y ddogfen ddrafft WESP fel a ganlyn:

- Codi proffil a lefelau cyfranogiad ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg ar draws y Fwrdeistref Sirol erbyn 2022, i gyfrannu at y weledigaeth o filiwn o siaradwyr erbyn 2050
- Cynyddu'r ddarpariaeth blynyddoedd cynnar i ysgogi galw rhieni i alluogi twf ar draws y Fwrdeistref Sirol
- Parhau i gynyddu cyfraddau trosglwyddo o ddarpariaeth feithrin cyfrwng Cymraeg i Ysgol Gymraeg Bro Helyg
- Gweithio'n rhanbarthol gydag Awdurdodau Lleol De-ddwyrain Cymru i sicrhau lleoedd i ddysgwyr Blaenau Gwent mewn darpariaeth uwchradd cyfrwng Cymraeg
- Gwella deilliannau dysgwyr cyfrwng Cymraeg fel bod dysgwyr yn codi dyheadau a gwella eu cyfleoedd bywyd

Cymeradwywyd Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg Blaenau Gwent yn ffurfiol gan Lywodraeth Cymru ym mis Mawrth 2018. Blaenau Gwent oedd y Cyngor cyntaf a'r unig Gyngor yn rhanbarth De-ddwyrain Cymru ar y pryd, i gael cymeradwyo'r cynllun heb unrhyw ddiwygiadau pellach.

Ochr yn ochr ag adolygiad o Gynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg, adolygir a chryfheir strwythur Fforwm Addysg Gymraeg (WEF) Blaenau Gwent, ei aelodaeth a dogfennaeth gysylltiedig yn flynyddol.

Cynhaliwyd pedwar cyfarfod WEF drwy gydol sesiwn academaidd 2021/22, ynghyd â gweithdai pwrpasol ychwanegol yn canolbwyntio ar ddatblygu Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg newydd (2022-32). Gwnaeth partneriaid sylwadau ar effeithiolrwydd y Fforwm, sydd yn ei dro wedi cael effaith gadarnhaol ar aelodaeth, presenoldeb a chanlyniadau.

Yn ogystal, y Rheolwr Trawsnewid Addysg yw cadeirydd Is-grŵp Cynllunio Lleoedd Ysgol a Galw Rhanbarthol Fforwm Strategol WEF. Mae'r grŵp yn cyfarfod bob chwarter ac yn ystyried y meysydd gwaith a ganlyn:

- Datblygu Strategaeth Hyrwyddo a Chyfathrebu Rhanbarthol
- Monitro'r Galw am Lleoedd Addysg Cyfrwng Cymraeg a'r nifer sy'n manteisio arnynt
- Adolygiad Rhanbarthol o Ddarpariaeth Ysgolion Uwchradd Cyfrwng Cymraeg
- Grant Cyfrwng Cymraeg a Chynigion a Phrosiectau Band B Ysgolion yr 21ain Ganrif
- Diweddariadau WESP a WEF
- Trochi

Mae'r Cyngor a'r Fforwm Cymraeg mewn Addysg wedi gweithio gydag awdurdodau cyfagos i ddatblygu llyfryn o'r enw '[Bod yn Ddwylieithog](#)' sy'n hyrwyddo manteision siarad Cymraeg a Saesneg. Adolygir y ddogfen yn flynyddol a'i rhannu gyda theuluoedd darpar ddisgyblion. Mae'r llyfryn hefyd yn gysylltiedig â'r broses dderbyn ac yn cael ei rannu â gweithwyr iechyd proffesiynol, lleoliadau blynyddoedd cynnar, ysgolion, a phartneriaid a gweithwyr proffesiynol perthnasol eraill, er mwyn hyrwyddo cyfleoedd ac addysg Gymraeg yn lleol.

Fe wnaethom barhau i wneud cynnydd da, yn dilyn pandemig COVID-19 ac ailagor ysgolion, mewn perthynas â chyflawni Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg drwy gydol 2021-22, ynghyd â'r prosesau a'r partneriaethau cysylltiedig gan gynnwys y Fforwm Cymraeg mewn Addysg, sy'n sail i'w gyflawni. Arhosodd hunanasesiad Blaenau Gwent 2021-22 yn erbyn cynnydd allweddol yn Ambr, gyda chyfradd cwblhau yn erbyn cynllun gweithredu 2021-22 fel a ganlyn:

- 84% (neu 49 cam gweithredu) wedi'u cwblhau
- 7% (neu 4 cam gweithredu) parhaus; a
- 9% (5 cam gweithredu) gweithrediad yn cael eu datblygu

Mae angen rheolaeth a monitro parhaus i sicrhau bod y cynllun a'r targedau yn adlewyrchu'r angen, a bod yr amcanion allweddol yn cael eu cyflawni o fewn cyfnod pob cynllun cyflenwi. Mae 5 o'r prif gyflawniadau yn y sesiwn academaidd ddiwethaf yn cynnwys:

1. Mae Blaenau Gwent wedi llwyddo i sicrhau cymeradwyaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer Prosiect Band B Ysgolion yr 21ain Ganrif sy'n cynnwys gwaith ailfodelu yn Ysgol Gymraeg Bro Helyg. Yn ogystal, mae Addysg yn bwrw ymlaen â phrosiect i greu ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg â 210 o leoedd a chyfleuster gofal plant cysylltiedig o fewn cwm Tredegar/Sirhywi.

2. Mae niferoedd y disgyblion ar y gofrestr ynghyd â'r rhai sy'n gwneud cais am le yn Ysgol Gymraeg Bro Helyg wedi parhau i gynyddu, gyda thuedd gadarnhaol wedi'i nodi dros y 3 blynedd diwethaf mewn perthynas â niferoedd disgyblion meithrin a derbyn. Yn ogystal, roedd cyfraddau trosglwyddo rhwng y cynradd ac uwchradd ar gyfer 2019/20 yn 100%.

3. Mae Cyngor Blaenau Gwent wedi datblygu cynllun marchnata a chyfathrebu cryf, gan dargedu a hyrwyddo manteision bod yn ddwyieithog, tra hefyd yn sefydlu dulliau priodol o ymgysylltu ac ymgynghori â rhanddeiliaid, er mwyn llywio blaenoriaethau strategol allweddol.

4. Mae cynrychiolaeth partneriaid, presenoldeb ac amllder Fforwm Addysg Gymraeg Blaenau Gwent yn parhau i fod yn gryf, gyda phartneriaid wedi ymrwymo'n gadarn i effeithiolrwydd Fforwm Blaenau Gwent ac yn ei gydnabod. Mae partneriaid wedi canmol gwaith WEF BG fel enghraifft o arfer da. Hefyd, mae Is-grŵp POSP WESP yn parhau i gyfarfod yn rheolaidd i gefnogi cynigion ar gyfer twf a datblygiad ar sail ranbarthol ac eto, i lywio cynllunio strategol.

5. Mae ffigyrau Cymraeg Sabothol yn cynyddu'n flynyddol gyda mynychder staff ysgolion yn cynyddu flwyddyn ar ôl blwyddyn gan ddangos ymrwymiad parhaus i'r Gymraeg.

Cynllun 10 Mlynedd Blaenau Gwent

Yn 2017, cynhaliodd Llywodraeth Cymru adolygiad cyflym o'r cynlluniau Awdurdodau Lleol arfaethedig. Roedd yr adolygiad yn cydnabod yr angen am newid, nid yn unig o ran uchelgeisiau cynlluniau unigol, ond hefyd o ran y fframwaith deddfwriaethol a osodwyd gan Lywodraeth Cymru. Amlygodd yr adolygiad yr angen i newid y rheoliadau a'r canllawiau, ynghyd â newid sylweddol yn ymagwedd Llywodraeth Cymru ac Awdurdodau Lleol at gynllunio. O ganlyniad, adolygodd Llywodraeth Cymru y fframwaith deddfwriaethol sy'n gysylltiedig â'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg, gyda'r ffocws allweddol ar greu fframwaith sy'n galluogi Awdurdodau Lleol i ddatblygu cynlluniau strategol hirdymor.

Cyn pandemig COVID-19, roedd Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Lleol gyflwyno eu cynllun 10 mlynedd drafft cyntaf i Weinidogion Cymru erbyn 31 Ionawr 2021; fodd bynnag, yng ngoleuni'r pandemig a'r gofynion ymateb brys cysylltiedig, mae'r amserlen cyflwyno wedi'i diweddarau. Yn dilyn y cyfnod drafftio a'r cyfnod ymgynghori dilynol, gosodwyd Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (Cymru) 2019, ynghyd â'r canllawiau drafft ar 5 Rhagfyr 2019 a daethant i rym ar 1 Ionawr 2020. Rhaid i Awdurdodau Lleol gyflwyno eu cynllun drafft 10 mlynedd cyntaf i Weinidogion Cymru ar 31 Ionawr 2022, gyda'r cynllun yn weithredol o fis Medi 2022. Bydd WESP cyfredol BG yn parhau mewn grym tan y dyddiad hwnnw.

Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i gynlluniau 10 mlynedd Awdurdodau Lleol gynnwys y canlynol:

- Gweledigaeth glir a chryno yn seiliedig ar y targed a gytunwyd
- Proffil addysg lleol (nifer y dysgwyr oed ysgol, nifer pob ysgol o dan bob categori, a nifer y dysgwyr o fewn pob categori ysgol)
- Data allweddol ar gyfer pob canlyniad (gwaelodlin a rhagamcanion cyfredol)
- Unrhyw gynlluniau lefel uchel neu ffactorau sy'n effeithio ar addysg yn y sir
- Nodau ac amcanion clir o dan y 7 canlyniad
- Cyswllt clir rhwng sut mae pob agwedd o'r cynllun yn cyfrannu at y weledigaeth a'r targed troswaol; a
- Cyswllt clir rhwng y cynllun a strategaethau Awdurdodau Lleol eraill a meysydd polisi perthnasol

Mae Gweledigaeth Cyngor Blaenau Gwent ar gyfer Addysg Cyfrwng Cymraeg fel a ganlyn:

'Adeiladu ar y cynnydd cryf a wnaed hyd yma, drwy greu system addysg gynaliadwy sy'n gwella'r ddarpariaeth, y nifer sy'n manteisio ar y Gymraeg ac yn ei defnyddio; creu dinasyddion medrus a grymus sy'n falch o fyw a gweithio yng Nghymru a thu hwnt'.

Y nod strategol fydd creu:

'Cymuned sy'n cofleidio'r Gymraeg a'r diwylliant Cymreig gyda hyder a balchder'.

Byddwn yn ceisio gwireddu ein gweledigaeth drwy hyrwyddo, datblygu a gwella darpariaeth a gwasanaethau addysg cyfrwng Cymraeg. Byddwn yn gwneud hynny drwy gydweithio'n agos â'r Fforwm Cymraeg mewn Addysg, ynghyd â phartneriaid strategol allweddol eraill gan gynnwys Llywodraeth Cymru, ac Awdurdodau Lleol eraill. Mae ein hamcanion strategol yn cynnwys:

- Codi proffil addysg cyfrwng Cymraeg, ynghyd â manteision bod yn ddwyieithog
- Creu sefydliadau dysgu ffyniannus o ansawdd uchel sy'n cefnogi ymgysylltiad effeithiol gan ddisgyblion, staff, y gymuned a phartneriaid
- Cefnogi integreiddio gwasanaethau a chreu profiad trochi i ddysgwyr
- Sicrhau gwell gweithio ysgol i ysgol a gwaith partneriaeth, gan hwyluso defnydd ehangach a datblygiad o'r iaith Gymraeg
- Creu gweithlu medrus a chynaliadwy, sy'n ymroddedig i ddatblygiad proffesiynol parhaus
- Sicrhau amgylcheddau addysgu a dysgu cynhwysol a chyfleoedd i bob dysgwr; a
- Gwella cyfleoedd dilyniant trwy adolygu a gweithredu cwricwlwm sydd wedi'i alinio'n gadarn ag addysg bellach ac uwch

Mae'r Cyngor yn ceisio cyflawni'r canlyniadau canlynol fel y nodir gan Lywodraeth Cymru, sy'n adlewyrchu taith addysg y dysgwr, ac sy'n gyson â meysydd polisi Cymraeg 2050 ac Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth Ein Cenedl.

Canlyniad 1

Mwy o blant meithrin/tair oed yn derbyn eu haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg.

Canlyniad 2

Mwy o blant dosbarth derbyn/pump oed yn derbyn eu haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg.

Canlyniad 3

Mwy o blant yn parhau i wella eu sgiliau Cymraeg wrth drosglwyddo o un cyfnod o'u haddysg statudol i'r llall.

Canlyniad 4

Mwy o ddysgwyr yn astudio ar gyfer cymwysterau a asesir yn y Gymraeg (fel pwnc) a phynciau trwy gyfrwng y Gymraeg.

Canlyniad 5

Mwy o gyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg mewn gwahanol gyd-destunau yn yr ysgol.

Canlyniad 6

Cynnydd yn y ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) (yn unol â'r dyletswyddau a osodir gan Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018).

Canlyniad 7

Cynyddu nifer y staff addysgu sy'n gallu addysgu'r Gymraeg (fel pwnc) ac addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.

Er mwyn cyflawni ein gweledigaeth a'n hamcanion, mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent wedi ymrwmo i weithio tuag at darged uchelgeisiol Llywodraeth Cymru, sef cynyddu'r garfan Blwyddyn 1 a addysgir drwy gyfrwng y Gymraeg i 75 o ddisgyblion. O'i gymharu â data gwaelodlin 2019/20 a ddefnyddir gan Lywodraeth Cymru, byddai hyn yn cyfateb i 10% (cynnydd o 6 phwynt canran) o gyfanswm carfan Blwyddyn 1 sy'n cael eu haddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg erbyn 2032.

Rhoddodd y tîm Trawsnewid Addysg gynllun ymgysylltu ar waith i sicrhau bod rhanddeiliaid a phartneriaid allweddol yn cyfrannu'n effeithiol at ddatblygiad y cynllun 10 mlynedd ac yn ei lywio. Roedd hyn yn cynnwys:

- Datblygu ac adolygu map rhanddeiliaid a chynllun ymgysylltu yn rheolaidd
- Cynnal sesiynau myfyrio gydag aelodau WEF a phartneriaid allweddol, gyda'r nod o adolygu datblygiad a gweithrediad Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg BG (2017-2020) gan gynnwys arfarniad o'r canlynol: canlyniadau, cyflawniadau, targedau, rhwystrau, heriau, cyfleoedd dilyniant, partneriaid a data
- Sefydlu is-grŵp o'r WEF i gytuno ar amserlen a dull o ddrafftio ac adolygu'r cynllun 10 mlynedd, tra hefyd yn monitro cynnydd datblygiadol
- Gweithio gydag awdurdodau cyfagos trwy'r Grŵp Cynllunio a Lleoedd Ysgol a Galw Rhanbarthol WEF, i sicrhau aliniad tra hefyd yn nodi ac yn manteisio ar gyfleoedd

Gan weithio'n agos gyda Fforwm Addysg Gymraeg Blaenau Gwent, ynghyd â rhanddeiliaid allweddol eraill e.e. Iechyd ac Awdurdodau cyfagos, cynhyrchodd y tîm Trawsnewid Addysg Gynllun Strategol 10 mlynedd drafft. Datblygwyd y ddogfen yn unol â rheoliadau a chanllawiau Llywodraeth Cymru. Yna, cychwynnodd y tîm ar broses ymgynghori ffurfiol, lle cyhoeddwyd y ddogfen i'r holl ymgynghoreion a nodwyd yng Nghannllawiau Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg Llywodraeth Cymru, a byddai hefyd ar gael ar dudalen we'r Cyngor. Drafftiwyd Cynllun Cyfathrebu, a oedd yn cynnwys Cyfathrebu Corfforaethol yn hyrwyddo'r ymgynghoriad yn rheolaidd trwy dudalennau cyfryngau cymdeithasol y Cyngor, ac Addysg yn gwneud hynny trwy ysgolion a phartneriaid allweddol. Dechreuodd y cyfnod ymgynghori ddydd Gwener 5 Tachwedd 2021 a daeth i ben ddydd Llun 3 Ionawr 2022.

Roedd canlyniad y prosesau ymgynghori yn adlewyrchu'r ymgysylltu effeithiol a wnaed gan y Fforwm Addysg Gymraeg a'r tîm Trawsnewid Addysg, i sicrhau bod safbwyntiau rhanddeiliaid yn cael eu casglu a'u hymgorffori yn y drafft terfynol. Yn ystod y broses ymgynghori 8 wythnos:

- Derbyniwyd 6 ymateb ysgrifenedig, gan gynnwys un allan o amser
- Derbyniwyd 6 ymateb i'r arolwg, gyda 5 ohonynt yn cefnogi'r cynllun yn gryf

Cyfeiriodd sawl ymatebydd at y cynnydd cadarnhaol a wnaed hyd yma, tra'n cydnabod hefyd ymrwymiad y Cyngor yn unol â datblygiad a thwf Addysg Gymraeg a'r Iaith Gymraeg. Ystyriwyd yr holl ymatebion, gan gynnwys meysydd lle'r oedd ymgynghoreion wedi awgrymu y gellid cryfhau'r cynllun drafft, a diweddarwyd y ddogfen yn unol â hynny. Mae addysg, ynghyd â'r WEF hefyd yn bwriadu ystyried y sylwadau yn unol â datblygiad cynllun cyflenwi'r WESP.

Cyflwynwyd y ddogfen ddrafft ddydd Llun 31 Ionawr i Lywodraeth Cymru ac fe'i cymeradwywyd gan y Pwyllgor Gwaith ar 2 Mawrth 2022.

Cynnig Grant Cyfrwng Cymraeg

Cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid ar 16 Ionawr 2018 y byddai £30 miliwn yn cael ei ddyrannu i gefnogi prosiectau cyfalaf sy'n ymroddedig i'r Gymraeg mewn addysg ac sy'n tyfu, (gweinyddir y grant yn ychwanegol at y dyraniadau cyfalaf a

gadarnhawyd ym Mand B). Roedd angen cynigion i greu ychwanegedd a chyfrannu at gyflawni nod Llywodraeth Cymru o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Dechreuwyd y broses ymgeisio am grant ym mis Mawrth 2018. Derbyniodd Cyngor Blaenau Gwent gadarnhad ym mis Hydref 2018, eu bod wedi llwyddo i sicrhau £6.2 miliwn wrth greu darpariaeth gynradd a gofal plant ychwanegol.

Gohiriwyd y prosiect yn gynnar yn 2019 tra'n aros am drafodaethau rhwng y Cyngor a Llywodraeth Cymru ar lefel uwch, ynghylch goblygiadau refeniw. Yn dilyn adolygiad ariannol manwl, penderfynwyd mewn cyfarfod anffurfiol o'r Tîm Gweithredol/Arweinwyr Corfforaethol ym mis Chwefror 2020, y gallai'r prosiect symud ymlaen i'r cam ymgynghori statudol – yn amodol ar adroddiad i'r Pwyllgor Gwaith yn nhymor yr hydref 2020. Cychwynwyd y broses ymgynghori ym mis Rhagfyr 2020, gan ddod i ben ym mis Ionawr 2021.

Penderfynodd y broses ymgynghori fod cefnogaeth eang i'r cynnig ymhlith y rhai yr ymgynghorwyd â hwy, gyda dros 93% o'r ymatebwyr o blaid datblygu'r ysgol newydd, gan nodi'r effaith gadarnhaol y mae'r cynnig yn debygol o'i chael ar y Gymraeg, addysg, cyflogaeth, y gymuned leol a'r economi. I grynhoi, yn ystod y cyfnod ymgynghori 42 diwrnod, derbyniodd y Cyngor:

- 8 ymateb e-bost; a,
- 190 o ymatebion i'r arolwg.

Gellir dadansoddi'r ymatebion fel a ganlyn:

- Cefnogi'r cynnig yn llawn - 177 (93%)
- Cefnogi'r cynnig yn rhannol - 2 (1%)
- Ddim yn cefnogi'r cynnig - 11 (6%)

Yn unol â chanlyniad yr ymgynghoriad, penderfynodd Pwyllgor Gwaith y Cyngor y dylai'r cynnig symud ymlaen i Hysbysiad Statudol. Felly, dechreuodd y cyfnod Hysbysiad Statudol ddydd Llun 1 Mawrth 2021 a daeth i ben ar ddydd Llun 29 Mawrth 2021. Dangoswyd cefnogaeth i'r cynnig ymhellach yn ystod y cyfnod hwn, gyda dim ond 1 llythyr gwrthwynebu wedi dod i law. Roedd yr ymateb yn manylu ar bryderon ynglŷn â'r effaith posib ar yr unigolyn fel preswlydd lleol yn hytrach na datgan gwrthwynebiad ffurfiol i'r bwriad. Yn dilyn hynny, cymeradwyodd y Pwyllgor Gwaith y cynnig a chychwynwyd y broses hysbysu penderfyniad. Mae'r prosiect yn symud ymlaen i'r cam tendro ar hyn o bryd, gyda'r ysgol eginblanhigyn newydd a gofal plant cysylltiedig wedi'u rhaglennu i'w defnyddio o dymor yr hydref 2023.

Grant Trochi

Mae addysg, mewn partneriaeth â chontractwr arbenigol, yr ysgol a Llywodraeth Cymru, wedi datblygu darpariaeth trochi bwrsol yn Ysgol Gymraeg Bro Helyg, i ddarparu ar gyfer hwyrddyfodiaid i addysg cyfrwng Cymraeg. Datblygwyd prosiect yn unol â chyllid Llywodraeth Cymru i:

- Cwmpasu a datblygu adnoddau trochi h.y. pecynnau oed-benodol ac ar gyfer Blynyddoedd 2 - 6
- Ymgymryd â rhaglen hyfforddiant staff i ymgorffori'r egwyddorion a'r arferion a defnyddio adnoddau'n effeithiol i hwyluso darpariaeth trochi
- Cynllunio datblygiad rhaglen beilot drosiannol tymor byr gan ddefnyddio cyfleusterau presennol, i redeg rhwng 2022 a 2025
- Sicrhau adnoddau addysg i gefnogi cyflwyno addysgu a dysgu mewn modd trochi; a
- Cefnogi datblygiad rhestr o lety i hysbysu datblygiad prosiectau cyfalaf

Yn unol â chyflawni'r prosiect bu'r Cyngor yn gweithio'n agos gydag awdurdodau cyfagos i gymharu modelau darpariaeth trochi, nodi a mynd i'r afael ag unrhyw fylchau, tra hefyd yn mesur a datblygu arfer gorau. Yn ogystal, mae'r prosiect wedi cyfrannu at ddatblygu'r cynllun cyfathrebu a hyrwyddo gan weithio mewn partneriaeth â WEF BG, gan gefnogi gweithredu'r ddarpariaeth newydd yn unol â WESP BG.

Mae'r adnoddau wedi'u datblygu a'u treialu i gefnogi disgyblion cyfrwng Cymraeg yn yr ysgol, y mae pandemig COVID-19 wedi effeithio'n negyddol ar eu caffaeliad iaith. Gan weithio gyda'r Pennaeth a'r Cydlynnydd ADY yn Ysgol Gymraeg Bro Helyg i asesu effaith y pandemig, sefydlodd y grŵp prosiect y byddai'r ddau grŵp isaf ym mhob dosbarth o Flwyddyn 2 – Blwyddyn 6 yn elwa o ymyrraeth trochi iaith. Mae'r pecynnau adnoddau a'r ymyriadau yn cael eu treialu gyda'r grwpiau hyn rhwng mis Ebrill a mis Gorffennaf yn y lle cyntaf. Mae 8-10 disgybl ym mhob dosbarth wedi eu hadnabod ar gyfer cefnogaeth, felly bydd rhwng 40 a 50 o ddisgyblion yn gwireddu buddion uniongyrchol oherwydd y prosiect trochi.

Yna cynhelir peilot ffurfiol yn unol â'r galw am drosglwyddo yn ystod y flwyddyn o fis Medi 2021, gan sicrhau bod yr ysgol yn gallu darparu ar gyfer trochi a'i hyrwyddo ochr yn ochr â manteision bod yn ddwyieithog.

Yn ogystal â'r uchod, ceisiwyd cyllid cyfalaf i sefydlu estyniad deulawr ar Ysgol Gynradd Gymraeg Bro Helyg, er mwyn hwyluso darpariaeth uned trochi ar gyfer hyd at 10 disgybl ar draws Blynyddoedd 2 – 6, ynghyd ag uned adnoddau anghenion arbennig (SNRB) ar gyfer hyd at 10 disgybl ADY, gyda'r gallu i dyfu i ddarpariaeth cyfnod rhanedig.

*Mae **Amcan tri** Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg yn nodi y bydd y Cyngor yn "Cynyddu cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle".*

Mae'r Cyngor yn parhau i hyrwyddo ystod o gyrsiau allanol achrededig ac anachrededig, ynghyd â digwyddiadau ar gyfer staff mewn partneriaeth waith agos â phartneriaid allanol megis y Gwasanaeth Cyflawni Addysg a thîm Dysgu Cymunedol i Oedolion Ymddiriedolaeth Hamdden Aneurin.

O safbwynt ysgolion, mae pob pennaeth yn ymwybodol o'r angen i gynllunio ar gyfer datblygiad iaith staff a'r angen i gynnwys y Gymraeg mewn Cynlluniau Datblygu Ysgol.

Yn ogystal, mae ysgolion BG wedi cymryd rhan mewn archwiliad o sgiliau iaith staff ac anghenion hyfforddiant trwy'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg (EAS) ac yn ymgysylltu â dysgu proffesiynol a arweinir yn ganolog.

Dros y 3 sesiwn academaidd ddiwethaf mae niferoedd cynyddol o ymarferwyr wedi cael eu recriwtio i fynychu'r Cynllun Sabothol Cymraeg mewn Blwyddyn amser llawn Prifysgol Caerdydd.

Adolygu a datblygu Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg newydd 2022-27

Yn ystod 2021-22 dechreuodd y Cyngor ar gamau i adolygu a datblygu Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg 2022-27 newydd. Roedd hyn yn cynnwys sefydlu Fforwm Iaith Gymraeg, yn cynnwys rhanddeiliaid mewnol ac allanol allweddol, gan weithio ar y cyd mewn partneriaeth â Menter Iaith. Cynhaliwyd gweithdy cychwynnol ar 17 Tachwedd 2021 i ddechrau gwerthuso'r strategaeth flaenorol, o ran yr hyn a gyflawnwyd, yn ogystal â nodi meysydd allweddol i'w datblygu a'u gwella yn ogystal ag ystyried targedau a chanlyniadau allweddol. Cafodd y sesiwn ei fframio gan ddefnyddio adborth arolwg a dderbyniwyd gan fynychwyr cyn y sesiwn.

Roedd canlyniadau cadarnhaol y sesiwn yn cynnwys ailsefydlu Rhwydwaith Cymraeg Blaenau Gwent ac i'r grŵp gyfarfod bob chwarter gyda'r diben o gefnogi datblygiad Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg Blaenau Gwent 2022-27.

Mewn cytundeb â Swyddog Comisiynydd y Gymraeg, mae datblygiad Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg wedi'i alinio â phroses etholiad 2022 a sefydlu gweinyddiaeth newydd ar gyfer y Cyngor wedi hynny. Felly, mae cymeradwyo ein Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg newydd 2022-27 i fod i gael ei ystyried yn ddemocrataidd ym mis Hydref 2022, ar ôl y toriad.

Bodloni ein safonau gweithredu

Sgiliau Iaith Gymraeg Gweithwyr

Darparwyd y wybodaeth yn yr adran hon drwy'r Tîm Datblygu Sefydliadol gan ddefnyddio system iTrent y Cyngor ac mae'n cynrychioli gallu staff yn y Gymraeg ar 31 Mawrth 2022.

Mae gan staff y gallu a'r cyfrifoldeb i gadw eu cofnodion staff eu hunain. Y ffigwr sylfaen ar gyfer y data yw 2,464 o staff ar restr sefydliadau'r Cyngor (gostyngiad o 16.3% o gymharu â chofnodion 2020-21).

Siarad Cymraeg


Mae nifer y gweithwyr sydd â sgiliau siarad Cymraeg ar 31 Mawrth 2022 yn cyfateb i 470 (19%) o staff sy'n gallu siarad 'yn rhugl', 'eithaf da', 'cymedrol', neu 'ychydig'. Cynnydd bach o 1% (17 o staff) o gymharu â 2020-21.

Fodd bynnag, mae ychydig dros hanner cyfanswm y staff yn datgan nad oes ganddynt unrhyw allu i siarad Cymraeg (53%) sy'n gynnydd bychan o gymharu â'r cyfnod adrodd diwethaf (50%, 2020-21). Er hynny, dewisodd ychydig dros chwarter y staff (28%) beidio â datgelu eu gallu i siarad Cymraeg trwy iTrent.

Mae nifer a chanran y staff sy'n gallu deall, siarad, ysgrifennu, a darllen Cymraeg yn amrywio ychydig rhwng pob cymharydd, a ddangosir yn y graffiau isod:


Siart 1: Siarad Cymraeg

Y Gallu i Siarad Cymraeg	Nifer y Staff
Rhugl	33 (1%)
Cymedrol	123 (5%)
Eithaf da	17 (1%)
Ychydig	297 (12%)
Dim gallu	1312 (53%)
Dim ymateb	701 (28%)
Cyfanswm	2,464




Siart 2: Deall Cymraeg

Y Gallu i Ddeall Cymraeg	Nifer y Staff
Rhugl	34 (1%)
Cymedrol	144 (6%)
Eithaf da	22 (1%)
Ychydig	334 (14%)
Dim gallu	1281 (52%)
Dim ymateb	668 (27%)
Cyfanswm	2,464




Siart 3: Ysgrifennu Cymraeg

Y Gallu i Ysgrifennu Cymraeg	Nifer y Staff
Rhugl	29 (1%)
Cymedrol	100 (4%)
Eithaf da	19 (1%)
Ychydig	242 (10%)
Dim gallu	1344 (55%)
Dim ymateb	748 (30%)
Cyfanswm	2,946



Siart 4: Darllen Cymraeg

Y Gallu i Ddarllen Cymraeg	Nifer y Staff
Rhugl	33 (1%)
Cymedrol	118 (5%)
Eithaf da	25 (1%)
Ychydig	255 (10%)
Dim gallu	1328 (54%)
Dim ymateb	723 (29%)
Cyfanswm	2,464




Mae'r graffiau uchod yn dangos bod y ffigurau ynghylch gallu yn debyg iawn ar draws meysydd sgiliau siarad, deall, ysgrifennu a darllen. Mae canran y staff sy'n datgan eu bod yn 'rhugl' yn 1% tra bod canran y staff sy'n dweud 'dim gallu' rhwng 52% i 55%.

Mae bron i chwarter y staff (22%) yn ystyried eu hunain â gallu i Ddeall Cymraeg, tra mai dim ond 16% sydd â'r gallu i Ysgrifennu Cymraeg, gyda 16% yn nodi gallu i Ddarllen Cymraeg ac 19% yn gallu Siarad Cymraeg (cynnydd bach o 2020-21). Mae'r ffigurau hyn yn gymharol debyg i gyfnod adrodd y llynedd.

Siaradwyr Cymraeg Rhugl yn ôl Cyfarwyddiaeth a Math o Gontract

Mae'r graffiau a'r tablau canlynol yn adlewyrchu cyfanswm nifer y Siaradwyr Cymraeg Rhugl yn ôl Cyfarwyddiaeth a Math o Gontract ar draws y sefydliad.



Mae cyfanswm o 34 aelod o staff yn datgan eu bod yn rhugl, sy'n ostyngiad o 10 aelod o staff (22%) o gymharu â 2020-21.

Y Gyfadran Addysg sydd â'r siaradwyr Cymraeg mwyaf rhugl (27), ac mae 1 aelod o staff yn datgan rhuglder yn y Gyfadran Gwasanaethau Corfforaethol sy'n gynydd cadarnhaol gan fod 0 wedi datgan rhuglder yn y Gymraeg mewn cyfnodau adrodd blaenorol.

Recriwtio – Gofyniad Sgiliau Iaith Gymraeg

Wrth recriwtio ar gyfer swyddi newydd neu wag, mae'n ofynnol i Reolwyr lenwi ffurflen Aseu Sgiliau Iaith Gymraeg. Mae'r wybodaeth yn siapio cynnwys y swydd-ddisgrifiad, ffurflen hysbysebu, gweithdrefn gyfweld ac wedi hynny unrhyw gyflogaeth. Yn unol â gofynion Safonau'r Gymraeg, mae'r Cyngor yn cadw cofnodion priodol o bob asesiad.

Yn ystod cwmpas y cyfnod adrodd, hysbysebwyd cyfanswm o 493 o swyddi gan y Cyngor; roedd 3 swydd yn nodi bod Sgiliau Iaith Gymraeg yn '**Hanfodol**' a nododd 418 o swyddi y Gymraeg fel '**Dymunol**'.

Polisi'r Cyngor yw bod pob swydd yn cael ei gwneud gyda'r Gymraeg yn 'Dymunol' fel gofyniad sylfaenol. Hefyd, rhestrwyd 0 swydd yn y cyfnod adrodd lle nodwyd sgiliau Cymraeg fel sgil yr oedd angen ei ddysgu yn dilyn penodiad unigolyn i swydd.

Mewn ymateb i'n Hymweliad Monitro'r Iaith Gymraeg Blynyddol 2021-22, mae Datblygu Sefydliadol yn adolygu ei holl brosesau recriwtio i sicrhau cydymffurfiaeth ac i gynyddu a chadw sgiliau Gymraeg ar draws y gweithlu.

4. Casgliadau ac argymhellion/camau gweithredu

Bydd Cyngor Blaenau Gwent yn parhau i ymateb yn gadarnhaol i Safonau'r Gymraeg ac mae wedi ymrwymo i gyflawni ei ddyletswyddau o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Rydym yn cydnabod bod gwaith pellach i'w wneud o hyd o ran atgyfnerthu'r gofynion a cheisio gwella'n barhaus ansawdd ac argaeledd gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg.

Fel rhan o'n gwaith yn y flwyddyn sydd i ddod, byddwn yn parhau i fwrw ymlaen â'r camau gweithredu allweddol canlynol:

- Datblygu a chyhoeddi ein Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg newydd 2022-27, yn ogystal â chefnogi a datblygu Fforwm Iaith Gymraeg newydd Blaenau Gwent
- Hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle a mwy o gyfleoedd hyfforddiant i staff; yn enwedig staff sy'n allweddol wrth gefnogi cynnal ein safonau cyflawni gweithredol, gan gynnwys datblygu sesiynau anffurfiol i staff ddefnyddio'r Gymraeg drwy 'Hoffi Coffi'
- Cefnogi'r adolygiad o'n safonau llunio polisi, gan gynnwys y Polisi newydd ar Ddyfarnu Grantiau
- Cryfhau ein prosesau recriwtio presennol i gynyddu sgiliau iaith Gymraeg ein gweithlu presennol a gweithlu'r dyfodol

Dros y cyfnod sydd i ddod, ein nod yw parhau â'n cynnydd, mewn perthynas â chyflawni ein dyletswyddau iaith Gymraeg, a gwneud unrhyw welliannau angenrheidiol i sicrhau ein bod yn darparu'r gwasanaethau gorau posibl i'n staff, preswylwyr, partneriaid a rhanddeiliaid.